

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd Nos Fercher 19 o Ebrill 2023, 6.30pm trwy Zoom. (dechreuodd y cyfarfod am 7yh yn dilyn mater technoleg)

Presennol: Cyngorwyr; Alyn Ashworth, Gaynor Wood-Tickle, Roy Tickle, Philip Stevens, Catherine Jones, Gaynor Morgan-Rees & Sylvia Jennings; Jenny Barlow (Clerc y Dref).

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod y Cyngor Llawn mis Ebrill.

193 Ymddiheuriadau am absenoldeb. Cyng Jan Tomlinson & Lara Pritchard.

194 Datganiad o Ddiddordeb Personol/Rhagfarnol

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

Cynghorydd	Eitem	Niwedol/Personol
Gaynor Wood Tickle	17	Niwedol
Roy Tickle	17	Niwedol

195 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ddydd Mawrth 28 o Chwefror 2023. Cytunwyd a nodwyd.

196 Cadarnhau Cofnodion o Cyfarfod Llawn y Cyngor a gynhaliwyd ar Ddydd Mercher 22 o Fawrth 2023. Cytunwyd a nodwyd.

197 Cadarnhau Cofnodion o Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar Ddydd Llun 3 o Ebrill 2023. Cytunwyd a nodwyd.

198 Materion yn codi: Offer cyfarfod hybrid. Cytunodd y cyngorwyr tref i dderbyn y dyfynbris a dderbyniwyd gan Catalyst. Bydd y Clerc yn gwneud y trefniadau angenrheidiol i brynu'r eitemau.

199 Gohebiaeth a dderbyniwyd:

199.1 Nodwyd Cylchlythyr Mawrth Awel Y Mor.

199.2 E-bost oddi wrth Sean Lucas parthed Drysau Agored Dinbych, nodwyd nodyn o ddiolch.

199.3 E-bost oddi wrth G Jones ynglŷn â mainc goffa yn Lôn Tywysog – gwrthodwyd. Bydd y clerch yn rhoi gwybod gyda phwy i gysylltu mewn perthynas â thrwydded rhag ofn y byddant yn dymuno prynu eu mainc eu hunain ar gyfer y lleoliad.

199.4 Nodwyd digwyddiad cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltu â'r gymuned 19.05.2023.

200 Cyllid

200.1 Cyllid - Adroddiadau cysoni banc – Ionawr, Chwefror & Mawrth - Cytunwyd a nodwyd.

200.2 Rhestr o daliadau a wnaed ym mis Mawrth. Cytuno a Nodwyd.

01.03.2023	007842	Jones & Graham	March Salary	£2753.08
01.03.2023	007843	Jones & Graham	March HMRC	£837.51
01.03.2023	07844	Jones & Graham	March Pension	£847.62
18.03.2023	007845	G E Wood	Det 50, 2022/23	£120.00
18.03.2023	007846	K P Stevens	Det 50, 2022/23	£120.00
18.03.2023	007847	C E Jones	Det 50, 2022/23	£150.00
18.03.2023	007848	R Tickle	Det 50, 2022/23	£120.00
18.03.2023	007849	G Morgan Rees	Det 50, 2022/23	£150.00
18.03.2023	007850	L J Pritchard	Det 50, 2022/23	£122.80
18.03.2023	007851	S E Jennings	Det 50, 2022/23	£150.00
21.03.2023	007852	N power	Festive Lighting	£424.14
21.03.2023	007853	J Barlow	Zoom refund – March	£15.59
21.03.2023	007854	Catalyst	Feb telephony	£58.78
21.03.2023	007855	Holywell TC Mayor	Charity event 01.04	£25.00
21.03.2023	007856	Hampshire Flags	additional hand held flags	£64.20
21.03.2023	007857	Ministry of Colours	duplicate chq 007820 – lost	£106.80
21.03.2023	007858	Catalyst	March broadband	£38.00
21.03.2023	007859	Canda Copying Ltd	Photocopies 30.11 – 28.02	£32.34
21.03.2023	007860	Canda Copying	Lease 01/03 – 31/05	£47.46
21.03.2023	007861	Catalyst	Feb back-up	£4.70
21.03.2023	007862	J Davies	Museum repair – HLF res	£340.00
28.03.2023	007507	Sandra Williams	Translation 24.02.2023	£101.52
28.03.2023	007508	Audit Wales	2021/2022 audit fees	£233.00
28.03.2023	007509	Carys Jones	Website Feb & Marc	£165.00

Total £7,027.54

200.3 Rhestr o Gredydau a dderbyniwyd Ionawr - Mawrth - Cytuno a Nodwyd.

31.01.2023	Credit interest	£215.44
21.02.2023	Zurich Claim	£5.84
28.02.2023	Credit interest	£196.49
31.03.2023	Refund collection buckets	£106.80
31.03.2023	Credit interest	£211.96

200.4 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi: Awdurdodwyd y taliadau canlynol.

200.4.1	JTM Signs St David's Day road closure (Rhif sic 007519)	£624.00
200.4.2	DCC Town Hall Contribution (Rhif sic 007521)	£9250.00
200.4.3	Scribe Annual subscription (Rhif sic 007522)	£1008.76
200.4.4	Catalyst Annual on-site maintenance sub (Rhif sic 007523)	£420.00

200.5 Cymorth Grant: Cytunwyd ar yr isod gan y cynghorwyr tref:

200.5.1 Carnifal Dinbych, S137 £3,000.00

(Rhif siec007524)
200.5.2 Llangollen International Musical Eisteddfod, S145 £100.00
(Rhif siec 007525)
200.5.3 Denbigh and Flint Show, S137 £100.00
(Rhif siec 007526)

200.6 Taliadau a dderbyniwyd. Cymorth Cancer Macmillan

201 Cynllunio:

201.1 01/2023/0162

Fferm Broadleys, Dinbych

Cais ol-weithredol ar gyfer codi adeilad amaethyddol ar gyfer anifeiliaid a gwaith cysylltiedig.

Dim gwrthwynebiadau

201.2 01/2023/0205

Plot 2 Tir gyferbyn i Stad Ddiwidianol Colomendy, Dinbych.

Amrywio amod rhif 3 o ganiatad cynllunio rhif 01/2019/1012 i ganiatáu 3 blynedd arall i yflwyno cais materion a gadwyd yn ol; a amod rhif 5 i ganiatáu dylunio ddiwygiedig.

Dim gwrthwynebiadau

201.3 01/2023/0208

Plot 5 Tir gyferbyn i Stad Ddiwidianol Colomendy, Dinbych.

Amrywio asmod rhif 3 o ganiatad cynllunio 01/2019/1015 i ganiatáu 3 blynedd arall i gyflwyno cais materion a gadwyd yn ol; a amod rhif 5 i ganiatáu dylunio diwydiedig.

Dim gwrthwynebiadau

201.4 01/2023/0215

HSBC, 17 Ffordd Y Dyffryn, Dinbych

Gwaith mewnol ac allanol gan gynnwys symud ATM allanol ac arwyddion, dodrefn/offer mewnol a gwaith cysylltiedig.

Dim gwrthwynebiadau

201.5 01/2023/0216

HSBC, 17 Ffordd Y Dyffryn, Dinbych.

Gwaith mewnol ac allanol gan gynnwys symud ATM allanol ac arwyddion, dodrefn/offer mewnol a gwaith cysylltiedig. (cais adeilad rhestredig).

Dim gwrthwynebiadau

201.6 01/2023/0206

Plot 3 tir gyferbyn i Stad Ddiwidiannol Colomendy Dinbych.

Amrywio amod rhif 2 o gsaniatad cynllunio rhif 01/2019/1013 I ganisatau dylunio diwygiedig; a dileu amod 4 mewn perthynas a ffyrdd ystadau mewnol.

Dim gwrthwynebiadau

201.7 01/2023/0207

Plot 4 tir gyferbyn I Stad Ddiwidianol Collomendy, Dinbych.

Amrywio amod rhif 2 o ganiatad cynllunio rhif 01/2019/1014 I ganiatáu dylunio ddiwygiedig; a dileu amod 4 mewn perthynas a ffyrdd ystadau mewnol.

Dim gwrthwynebiadau

201.8 01/2023/0231

Tir gyferbyn a Pen Ddwy Accar, Lawnt, Dinbych.

Newid defnydd tir trwy lleoli 3 caban pren ar gyfer gosod gwyliau, gosod tanciau septig, tirlunio, mynedfa gerbydol, parcio a gwaith cysylltiedig.

Dim gwrthwynebiadau

201.9 01/2023/0232

Tir gyferbyn a Pen Ddwy Accar, Lawnt, Dinbych.

Arddangos arwyddion mewn perthynas a chabanau pren.

Dim gwrthwynebiadau

202 Diweddariad y Maer – nodwyd y manylion. Dywedodd y Cyng Alyn Ashworth ei fod wedi mynychu digwyddiad RSMA ar 14 Ebrill. Maent yn edrych ar gynnal digwyddiad blynyddol i annog cysylltiadau.

203 Cyfarfodydd Eraill a fynychwyd gan gynghorwyr tref.

Dyweddodd y Cyng Roy Tickle a Catherine Jones eu bod wedi mynychu cyfarfod Amgueddfa Dinbych yn ddiweddar. Mae grŵp yr Amgueddfa yn gofyn i gyngor y dref hysbysebu bod y maes parcio yn dychwelyd i'w ddefnydd gwreiddiol cyn gwaith cloddio Awel y Dyffryn – parcio preifat yn unig ar gyfer aelodau grŵp yr Amgueddfa ac Archifau ac ymwelwyr. Dywedodd y Cyng Alyn Ashworth y byddai'n cynorthwyo clerc y dref gyda'r geiriad ac yn dosbarthu'r hysbysiadau i'r rhai sy'n parcio yn y maes parcio ar hyn o bryd.

204 Cyfethol. Dywedodd clerc y dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi dod i law.

205 Diweddariad Digwyddiad y Coroni:

205.1 Dosbarthodd y Cyng Alyn Ashworth adroddiad ar y manylion hyd yma. Mae te parti i'w gynnal yn neuadd y dref i ddathlu'r coroni ar y 6ed o Fai.

205.2 Cadarnhaodd Clerc y Dref fod y coed eirin wedi eu caffael a bod yr ysgolion a'r clafdy yn parhau i dderbyn y cynnig o goed. Derbyniwyd costau ychwanegol ar gyfer plannu gan Greenfingers gan y cynghorwyr tref.

206 Diweddariad ar y darlithoedd – Cadarnhaodd clerc y dref fod y darlithoedd eleni yn llwyddiannus iawn. Codwyd cyfanswm o £430.62 at elusennau dewisol y Maer.

207 Dosbarthwyd a nodwyd cofrestr Presenoldeb Cynghorwyr.

208 Dyddiad cyfarfod blynyddol – Dydd Mercher 10fed Mai. Cadarnhaodd clerc y dref y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal drwy Zoom gan na fyddai'r offer i alluogi cynnal cyfarfod hybrid wedi'i dderbyn a'i brofi mewn pryd.

Gadawodd y Cyng Gaynor Wood Tickle a Roy Tickle y cyfarfod am 19.38.

209 Trosglwyddo asedau neuadd y dref.

Rhodddwyd gwybod i'r cynghorwyr tref am ddiweddariadau a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ddinbych.

Mae problemau gyda rhywfaint o'r strwythur concrit y mae angen ymchwilio iddynt a'u costio. Mae CSDd wedi dweud y byddent yn ymchwilio i'r posibilrwydd o brydles ac wedi dweud na i'r maes parcio. Dywedodd y Cyng Catherine Jones fod ganddi gofnodion yn dyddio'n ôl i 2019 lle'r oedd y maes parcio'n cael ei ystyried yn rhan o'r broses o drosglwyddo asedau. Bydd clerc y dref yn anfon ymateb yn ôl at Graham Boase a Daniel Roebuck o Gyngor Sir Ddinbych.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 8 yh

Arwyddwyd:.....

Dyddiad:.....

